

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa The Laurels, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 26 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r adolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	18
4. Y Camau nesaf .....	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	21
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa The Laurels ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 26 Ionawr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, ymarferydd cyffredinol, nyrs gofrestrdig ac adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Meddygfa The Laurels yn anelu at roi profiad o ansawdd uchel i'w cleifion.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Gwelsom wybodaeth berthnasol a chyfredol wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ystafell aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried nifer y sesiynau â meddygon teulu locwm a gaiff eu trefnu bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o apwyntiadau i'r cleifion bob dydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob ystafell ymgynghori, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau
- Mae digon o leoedd parcio ar gael, ac mae baeau parcio dynodedig i bobl anabl.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar y cleifion ac a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd gwybodaeth ddwyieithog ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon dda.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system ar waith i alluogi'r practis i fonitro cleifion a gaiff eu hatgyfeirio
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaethau a ragnodir bob amser yn gysylltiedig â chyflwr meddygol a nodir yn nodiadau'r cleifion
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod profion gwaed y gofynnir amdanynt gan y clinigwyr yn cael eu dogfennu'n glir yn nodiadau'r cleifion
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau pan fo'n briodol yn glinigol, bod y penderfyniad i gynnig hebryngwr yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi'i ddylunio a'i orffen i safon uchel.
- Roedd yr ystafelloedd ymgynghori yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd cofnodion da yn cael eu cadw
- Cofnodi dewis iaith y cleifion yn y cofnodion clinigol
- Roedd archwiliadau o ansawdd da wedi cael eu cwblhau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Cafodd Meddygfa The Laurels ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers mis Mehefin 2020. Nodwyd gennym fod y cymorth a gafwyd gan y bwrdd iechyd, ers iddo gymryd yr awenau o ran y cyfrifoldeb rheoli, wedi galluogi'r practis i barhau i weithredu'n gadarn.

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig a oedd yn agored ac yn hawdd mynd ato, a oedd yn golygu y gallai'r staff godi materion yn hyderus.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar y cleifion a oedd yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Roedd y tîm o staff yn cael ei gefnogi'n dda gan y bwrdd iechyd.

Gwelsom y staff yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda iawn fel tîm.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i recriwtio clinigwyr parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm a sicrhau parhad gofal i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn cynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Proses sefydlu staff dda ar waith
- Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 33 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

*“Mae'r nyrsys yn ardderchog, yn enwedig y rhai sy'n rhagnodi. Llawer haws i'w gweld na'r meddygon.”*

*“Byddai gallu trefnu apwyntiad ar-lein o fudd mawr.”*

*“Gallu cael apwyntiad ar-lein. Mae ciwio yn yr oerfel am apwyntiad yn 2023 yn hollol wirion.”*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

*“Darparu digon o feddygon i ymdopi â'r nifer o gleifion y mae angen apwyntiadau arnynt.”*

*“Apwyntiadau mwy hyblyg - mae'r drefn o ffonio am 8:30 neu giwio o 8am gyda'r gobaith o gael apwyntiad yn wael.”*

*“Darparu digon o feddygon i ymdopi â'r nifer o gleifion y mae angen apwyntiadau arnynt.”*

#### Cadw'n Iach

##### Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19:

- Roedd peiriannau gel alcohol a masgiau wyneb ar gael mewn mannau strategol ym mhob rhan o'r practis
- Roedd arwyddion cadw pellter cymdeithasol i'w gweld

- Sgrin amddiffynnol ar ddesg y dderbynfa
- Teganau wedi'u symud o'r ystafell aros.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain. Roedd cyngor hybu iechyd ar gael iddynt ar wefan y practis ac roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

## **Gofal ag urddas**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion ac i sicrhau cyfrinachedd. Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd i'r cleifion allu cael sgysiau preifat â'r staff.

Cawsom wybod bod sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg.

Roedd galwadau ffôn yn cael eu derbyn a'u gwneud yn breifat ac allan o glyw'r cleifion.

Roedd dolen glywed ar gael i helpu cleifion ac ymwelwyr â nam ar eu clyw. Roedd cyfleuster sgrin gyffwrdd hunanwasanaeth ar gael er mwyn i'r cleifion nodi eu bod wedi cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad.

Roedd y staff yn cymryd camau priodol i gynnal cyfrinachedd ac urddas y cleifion drwy sicrhau bod drysau'r ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd trin unigol yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn gweld cleifion. Roedd llenni preifatrwydd hefyd wedi'u darparu o amgylch y gwelyau archwilio.

Roedd gwybodaeth am yr hawl i ofyn am hebryngwr i'w gweld yn glir o amgylch y practis. Cawsom wybod fod cleifion yn cael cynnig hebryngwr ar lafar cyn ymgynghoriadau neu driniaethau. Dywedwyd wrthym fod yr aelodau o'r staff sy'n gweithio fel hebryngwyr wedi cael canllawiau a hyfforddiant perthnasol.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros ac ar wefan y practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth

lleol, cyngor hybu iechyd a gwybodaeth hunanofal er mwyn gallu rheoli cyflyrau iechyd eu hunain.

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis a'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion.

## Gofal amserol

### Mynediad Amserol

Disgrifiodd rheolwr y practis y prosesau a oedd ar waith i'r cleifion gysylltu â'r practis dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am yr opsiynau sydd ar gael er mwyn iddynt gael gafael ar gyngor priodol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol drwy wefan y practis a negeseuon ffôn.

Dywedwyd wrthym y gall cleifion nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur gysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn neu drwy ymweld â'r practis.

Gwelsom fod sylwadau'r cleifion mewn perthynas ag apwyntiadau dros y ffôn / rhithwir ac apwyntiadau wyneb yn wyneb yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau cymysg gan y cleifion mewn perthynas â'r gallu i gael apwyntiad â meddyg teulu. Yn ôl yr holiaduron a gwblhawyd, roedd llai na chwarter y cleifion wedi gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys. Dywedodd tua thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu cael apwyntiad cyffredinol pan oedd angen un arnynt a'u bod yn cael cynnig yr opsiwn i ddewis y math o apwyntiad. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

*“Mae angen mwy o feddygon arnom; gall gymryd hyd at bedair wythnos i gael apwyntiad oni bai fy mod i'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i eistedd am dros hanner awr i gael un, a hyd yn oed wedyn, yn aml iawn does dim posibl gweld meddyg.”*

*“Apwyntiadau mwy hyblyg - mae'r drefn o ffonio am 8:30 neu giwio o 8am gyda'r gobaith o gael apwyntiad yn wael.”*

*“Mae angen sicrhau bod mwy o apwyntiadau ar gael bob dydd. Gwell mynediad i'r gwasanaeth y tu allan i oriau - fel yr oedd cyn cyflwyno 111.”*

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael ac yn cael eu cynnig i gleifion pan fyddent yn cysylltu â'r practis i drefnu apwyntiad. O ystyried yr

ymatebion cymysg a dderbyniwyd gan gleifion mewn perthynas â chael gafael ar apwyntiadau gyda meddyg teulu, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried nifer yr apwyntiadau â meddygon teulu locwm sydd ar gael.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried nifer yr apwyntiadau â meddygon teulu locwm a gaiff eu trefnu bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o apwyntiadau i'w gleifion.**

Ers i'r bwrdd iechyd gymryd yr awenau o ran rheoli'r practis, bu'n dibynnu ar ddefnyddio meddygon teulu locwm. Roedd hyn yn anodd iawn i dîm y practis ei reoli. Mae rheolwr y practis yn ceisio sicrhau cysondeb drwy gael yr un meddygon teulu locwm os yn bosibl.

Gwelsom fod atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith i ddangos bod atgyfeiriadau wedi'u derbyn.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system ar waith ar gyfer monitro atgyfeiriadau.**

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau, yn unol ag anghenion unigol y bobl, yn seiliedig ar y wybodaeth hon.

Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori, ystafelloedd clinigol ac ystafelloedd trin ar y llawr gwaelod. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd trin yn fawr ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfarpar.

### **Hawliau pobl**

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i gleifion â gwahanol anghenion a gofynion iaith.

Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i bob ystafell ymgynghori, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau. Roedd digon o leoedd parcio ar gael, gan gynnwys baeau parcio dynodedig i bobl anabl.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd blwch awgrymiadau ar gael i'r cleifion roi adborth a / neu awgrymiadau. Gallai'r cleifion hefyd roi adborth neu godi pryderon drwy wefan y practis. Cawsom wybod fod rheolwr y practis yn ystyried unrhyw sylwadau neu adborth, ac y byddai'n cymryd camau mewn ymateb iddynt pe byddai'n briodol gwneud hynny. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod yn ystod y cyfarfodydd grŵp clwstwr lleol.

Roedd polisi cwynion ar waith. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, neu sut i fynd ati i godi pryder, wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros.

Roedd pwyslais ar ymdrin â chwynion yn uniongyrchol er mwyn gallu datrys materion cyn gynted â phosibl ac osgoi unrhyw angen i'w huwchgyfeirio. Caiff pob cwyn ei dwyn at sylw rheolwr y practis a'r bwrdd iechyd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da iawn, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Wrth gael ein tywys o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwmpo. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd drws y storfa lanhau wedi'i gloi a'i fod yn gilagored er mwyn i'r staff allu mynd i mewn i'r storfa yn gyflym. Rodd eitemau fel llafnau rasel yn cael eu storio yn yr ystafell. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at y mater hwn, a drefnodd i'r drws gael ei gloi ar unwaith ac i hysbysu'r staff.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod yn safle yn lân.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg ar waith gan y practis, er enghraifft tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Roedd polisi dadebru ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/hyfforddiant dadebru brys.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith, a gwelsom dystiolaeth fod archwiliad wedi'i gwblhau'n ddiweddar.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau plastig untro ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân yr olwg.

Gwelsom mai llenni tafladwy oedd yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd trin, ac felly roedd yn ddigon hawdd eu newid pe byddent yn dod yn halogedig neu'n frwnt. Mae hyn yn dangos ymrwymiad da i atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd hylif diheintio dwylo hefyd ar gael yn hwylus o amgylch y practis.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gellid gofyn am bresgripsiynau rheolaidd yn bersonol gan ddefnyddio'r blwch presgripsiynau rheolaidd yn y practis, drwy'r post, ar yr adnodd Fy Iechyd Ar-lein, drwy fynd â nhw i fferyllfa agosaf y claf neu drwy e-bostio'r practis gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ddiogel. Nodwyd bod y practis yn gwneud ymdrech i ddsbarthu presgripsiynau o fewn 48 awr. Am resymau diogelwch, nid oedd y practis yn derbyn ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd dros y ffôn, oni bai bod y practis wedi cytuno i hyn neu fod y claf wedi'i gofnodi fel unigolyn sy'n gaeth i'r tŷ.

Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n briodol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion y bwrdd iechyd ar gael i'r staff, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol unigolion dynodedig yn y bwrdd iechyd y gellid cysylltu â nhw os oedd gan y staff unrhyw bryderon am ddiogelu. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Roedd y staff yn gwybod sut i nodi arwyddion bod oedolion a phlant agored i niwed yn cael eu cam-drin. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rhannu gwybodaeth, cofnodi pryderon diogelu a sut i gysylltu â'r asiantaethau perthnasol.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol ar gyfer y gwaith y maent yn ymgymryd ag ef.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd.

Cadarnhawyd mai dim ond cyfarpar meddygol untro a gaiff ei ddefnyddio.

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd trefniadau addas ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y practis yn defnyddio system Datix ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd gwybodaeth yn cael ei storio'n briodol, er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelwch data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

### **Cadw cofnodion**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Gwelsom dystiolaeth bod y tîm yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Ym mhob achos, roedd y cofnodion yn cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng y staff clinigol a'r cleifion, ac roedd canlyniad ymgynghoriadau a'r cynllun gofal yn amlwg.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Gwelsom hefyd fod dewis iaith y claf yn cael ei chofnodi.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd meddyginiaethau bob amser yn gysylltiedig â chyflwr meddygol yn nodiadau'r cleifion, nid oedd y cofnodion ar gyfer rhai profion gwaed bob amser yn nodi pam y gofynnwyd amdanynt ac nid oedd y ffaith bod hebryngwr wedi cael ei gynnig bob amser yn cael ei nodi.



Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau:

- Bod y meddyginiaethau bob amser yn gysylltiedig â chyflwr meddygol a nodir yn nodiadau'r cleifion
- Bod unrhyw brofion gwaed y gofynnir amdanynt gan y clinigwyr yn cael eu dogfennu'n glir yn nodiadau'r cleifion
- Pan fo'n briodol yn glinigol, bod y penderfyniad i gynnig hebryngwr bob amser yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Mae Meddygfa The Laurels wedi cael ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers mis Mehefin 2020. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a oedd yn gwbl ymrwymedig ac yn ymroddedig i'r rôl.

Nodwyd gennym fod y cymorth a gafwyd gan y bwrdd iechyd, ers iddo gymryd yr awenau o ran y cyfrifoldeb rheoli, wedi galluogi'r practis i barhau i weithredu'n gadarn. Roedd y practis yn llwyddo i gadw staff.

Roedd y staff yn barchus a chwrtais. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion â rheolwr y practis ac yr eir i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn gwbl ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau.

Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi gan eu cydweithwyr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oes meddygon teulu ar y safle ar brynawn ddydd Gwener ac roedd y staff yn teimlo nad oes cymorth clinigol ar gael iddynt ar y dyddiau hyn. Cawsom wybod gan y bwrdd iechyd bod cymorth clinigol ar gael i'r staff pan nad oes meddyg teulu ar y safle. Dywedwyd wrthym fod rhif ffôn uniongyrchol ar gael i'r staff gysylltu â meddyg teulu a bod slotiau apwyntiadau ar gael mewn practis meddyg teulu lleol lle gall y cleifion weld meddyg teulu. O ystyried yr adborth a gawsom gan y staff, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniant presennol.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau cymorth clinigol a sicrhau bod pob un o aelodau'r staff yn ymwybodol o ba gymorth clinigol sydd ar gael iddynt.**

Mae'r practis wedi cael llawer o drafferth yn recriwtio meddygon teulu parhaol ers i'r bwrdd iechyd gymryd y cyfrifoldeb i'w reoli. O ganlyniad i hyn, bu angen defnyddio meddygon teulu locwm i ddarparu'r lefel o wasanaethau a oedd eu hangen. Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio i geisio recriwtio meddygon teulu parhaol. O ganlyniad, nid yw'r cleifion yn cael y parhad gofal gorau. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar aelodau penodol o'r staff sy'n gweithio yn y practis ac roedd y sefyllfa yn anodd iawn i dîm y practis ei rheoli.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i recriwtio clinigwyr parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm a sicrhau parhad gofal i gleifion.

Roedd cyfarfodydd grŵp clwstwr lleol yn cael eu cynnal, lle mae'r holl bractisau meddyg teulu lleol a reolir gan y bwrdd iechyd yn dod at ei gilydd i rannu gwersi a ddysgwyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr a bod practisau yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y practis ers i'r bwrdd iechyd gymryd yr awenau.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w harwain yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd rheolwr y practis wrthi'n adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau lleol perthnasol ac yn eu diweddarau.

### **Y Gweithlu**

Roedd gan y practis dîm sefydledig o staff derbynfa a staff gweinyddol. Wrth drafod â'r staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol yn y practis.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i'w cefnogi yn hyn o beth. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Cawsom wybodaeth a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol a/neu roedd cynlluniau ar waith i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant lle y bo'n gymwys.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau recriwtio ffurfiol ar waith. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar waith ar gyfer meddygon teulu locwm.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd drws y storfa lanhau, lle roedd llafnau rasel yn cael eu storio, wedi'i gloi ac roedd yn gilagored. Gallai cleifion fynd i mewn i'r ystafell.	Gall llafnau rasel beri risg ddifrifol o niwed.	Uwchgyfeiriwyd y mater at reolwr y practis.	Cafodd drws y Storfa Lanhau ei gloi ar unwaith a chafodd y staff eu hysbysu am y mater.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Meddygfa The Laurels**

Dyddiad yr arolygiad: **26 Ionawr 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa The Laurels

Dyddiad yr arolygiad: 26 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried nifer yr apwyntiadau â meddygon teulu locwm a gaiff eu trefnu bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu digon o apwyntiadau i'w gleifion.	Safon 5.1 Mynediad Amserol	Mae Tîm Ardal y Bwrdd Iechyd a Rheolwr y Practis yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau eu bod yn cael y canllawiau cywir ar y sesiynau digonol dyddiol ar gyfer y practis er mwyn gallu ymarfer yn ddiogel. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r meddygon teulu Locwm er mwyn helpu'r Practis nes bydd y swyddi wedi'u llenwi. Rydym hefyd am barhau i ganolbwyntio ar ein rhaglen recriwtio a chadw staff dan arweiniad ein Academi Gofal Sylfaenol, gyda sawl cynllun arloesol yn cael ei roi ar waith er mwyn denu meddygon teulu ychwanegol i'r rhanbarth. Yn yr un modd, rydym yn parhau i ddatblygu gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel yr Uwch-ymarferwyr Nyrso a all roi cymorth i gleifion ag ystod o broblemau iechyd a chefnogi'r meddygon teulu.	Rheolwr y Practis  Rheolwyr Rhaglen y Tîm Ardal  Rachael Page - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol	parhaus

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system ar waith ar gyfer monitro cleifion a gaiff eu hatgyfeirio.</p>	<p>Safon 5.1 Mynediad Amserol</p>	<p>Mae'r Practis yn mynd i fabwysiadu archwiliad misol ar atgyfeiriadau a'i roi ar waith. Bydd yr archwiliadau hyn yn ystyried atgyfeiriadau brys lle yr amheuir achos o ganser, atgyfeiriadau brys ac atgyfeiriadau cyffredin er mwyn tynnu sylw at unrhyw achosion o oedi/atgyfeiriadau a fethwyd neu broblemau. Hefyd, cyflwyno allwedd gyflym i feddygon teulu ei hychwanegu fel rhan o ymgynoriadau er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw atgyfeiriadau eu methu.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>1 mis i weithredu ac wedyn yn barhaus</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y meddyginiaethau a ragnodir bob amser yn gysylltiedig â chyflwr meddygol a nodir yn nodiadau'r cleifion.</li> <li>Bod unrhyw brofion gwaed y gofynnir amdanynt gan y clinigwyr yn cael eu dogfennu'n glir yn nodiadau'r cleifion.</li> </ul>	<p>Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau Safon 3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda meddygon teulu locwm i gwblhau adolygiadau cymheiriaid er mwyn tynnu sylw at y tri phwynt.</p> <p>Caiff unrhyw geisiadau am brofion gwaed eu cadw o dan Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG) o fewn EMIS er mwyn gallu eu gweld.</p> <p>Caiff pob pwynt ei ychwanegu ar ffurf agenda dreigl at gyfarfod Clinigol y Practis a gynhelir bob pythefnos, er mwyn atgoffa pob clinigydd.</p>	<p>Rheolwr y Practis Arweinydd Clinigol Uwch-arweinydd Clinigol Nyrs Arweiniol y Practis</p>	<p>parhaus</p>



<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan fo'n briodol yn glinigol, bod y penderfyniad i gynnig hebryngwr bob amser yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.</li> </ul>				
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau cymorth clinigol a sicrhau bod pob un o aelodau'r staff yn ymwybodol o ba gymorth clinigol sydd ar gael iddynt.</p>	<p>Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Bydd Rheolwr y Practis yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r timau gweinyddol a chlinigol am y trefniadau cyflenwi wythnosol drwy gyfrwng Rotas, gan ddiweddarau'r wybodaeth mewn cyfarfodydd gyda'r Tîm Clinigol a Gweinyddol/tîm y dderbynfa, ac yn sicrhau bod apwyntiadau clinigol EMIS yn gyfredol.</p> <p>Ar dudalen cartref EMIS, nodir prosesau uwchgyfeirio sy'n dangos pwy y dylid cysylltu â nhw os bydd angen uwchgyfeirio materion clinigol.</p>	<p>Rheolwr y Practis Arweinydd Clinigol</p>	<p>parhaus</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i recriwtio clinigwyr parhaol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar feddygon teulu locwm a sicrhau parhad gofal i gleifion.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae'r Ardal yn canolbwyntio ar brosiect Recriwtio a Chadw Staff gan weithio gyda'r Academi Gofal Sylfaenol i ddenu meddygon teulu i weithio ym maes Gofal Sylfaenol.</p>	<p>Tîm Ardal</p>	<p>parhaus</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Becci Jones**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 06/04/2023**